**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 01-02 (cofn. drafft)**

**COFNODION**

**Dyddiad** **10 Ionawr 02**
**Amser** **2.00 – 4.05pm**
**Lleoliad** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**

**Presenoldeb**

| **Aelodau** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Chris Chapman | Cwm Cynon |
| David Davies | Mynwy |
| Ron Davies | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Alison Halford | Delyn |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Rhodri Morgan (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd) | Gorllewin Caerdydd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| David Pritchard | Cyfarwyddwr, Datblygu Economaidd |
| Emyr Roberts | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |
| Alan Moss | Yr Is-adran Cynllunio Economaidd |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Syr John Houghton | Cyd-gadeirydd Gweithgor Asesu Gwyddonol y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd |
| Jake Chapman | Ymgynghorydd Arbenigol i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar yr Adolygiad o Ynni |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| John Grimes | Clerc |
| Sian Wilkins | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd.**

1. Gwnaethpwyd datganiadau o fuddiant gan Christine Gwyther y mae ei chymar yn berchen ar fusnes ymgynghoriaeth a chan Dafydd Wigley sydd yn gyfarwyddwr ar gwmni bach.
2. Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau na wnaethpwyd cais am adroddiad gan y Gweinidog gan fod y cyfarfod yn ychwanegol at gyfarfodydd rhestredig arferol y Pwyllgor ac y byddid yn llunio adroddiad ar gyfer y cyfarfod ar 16 Ionawr yn ôl y drefn arferol. Mynegodd Aelod siom nad oedd y Pwyllgor wedi derbyn adroddiad gan y Gweinidog ers 17 Rhagfyr.

**Eitem 2: Adolygiad o Ynni – Y Cynhesu Byd-eang**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd Syr John Houghton a oedd yn Gyd-gadeirydd Gweithgor Asesu Gwyddonol y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd a diolchodd iddo am ddod i siarad â'r Pwyllgor ar yr hyn a oedd yn bwnc pwysig iawn.
2. Disgrifiodd Syr John Houghton waith y Panel Rhynglywodraethol a oedd yn gorff o dan y Cenhedloedd Unedig a thynnodd sylw at yr adroddiad Asesiad diweddaraf a oedd ar gael ar wefan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd.
3. Tynnodd sylw at y newidiadau yn hinsawdd y byd ac effeithiau'r cynnydd mewn nwyon 'ty gwydr'. Dywedodd fod y byd wedi cynhesu'n drawiadol dros y ganrif ddiwethaf ac mai 1998 oedd y flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd hyd yn hyn. Rhagfynegwyd y byddai'r crynodiad o garbon deuocsid wedi cynyddu o 600 i 700 rhan y filiwn erbyn 2100, os byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. Yr oedd hyn yn uwch nag unrhyw grynodiad a gofnodwyd ers miliynau o flynyddoedd a byddai'n creu anghytbwysedd aflonyddol yn yr hinsawdd.
4. Yr amcanestyniad ar gyfer y ganrif hon oedd y byddai tymheredd y byd yn codi o 2 i 6 gradd ac, er bod peth ansicrwydd mewn modelau hinsawdd, byddai'r gyfradd newid yn un gyflym pa gydweddiad bynnag a ddefnyddid. Yr oedd yn rhesymol rhagdybio, ar ôl cymryd camau lliniaru i sefydlogi'r crynodiadau o garbon deuocsid, y byddai'r cynnydd cyfartalog yn nhymheredd y byd rhwng 3 a 4 gradd. Dywedodd mai ymaddasu i'r newid cyflym hwn yn yr hinsawdd fyddai'r peth mwyaf anodd.
5. Nododd effeithiau'r newid hinsawdd ar lefelau'r môr a hefyd effeithiau'r gylchred hydrolegol. Byddai byd cynhesach yn wlypach ac yn fwy gwyntog ac er y byddai glawiad cryfach mewn rhai ardaloedd, byddai'r rhanbarthau sychach yn dioddef gan fwy o sychder a byddai goblygiadau o ran y cyflenwad dwr yn y gaeafau gwlypach, mwynach a mwy gwyntog. Byddai un o effeithiau pellach y cynnydd

mewn gollyngiadau carbon deuocsid yn golygu mwy o gynnyrch wrth gynhyrchu bwyd mewn lledredau tymherus, tra byddai'n lleihau yn yr ardaloedd is-drofannol, gan gynyddu'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd. Amcangyfrifwyd ei bod yn bosibl y bydd 150 miliwn o ffoaduriaid 'amgylcheddol' ledled y byd erbyn 2050.

6. Wrth geisio mynd i'r afael â'r atebion, meddai, yr oedd yn holl bwysig sefydlogi gollyngiadau carbon deuocsid, yn ogystal ag ymaddasu, a dim ond senario o dan arweiniad ecolegol a gyflawnai hynny. Cydnabyddid bod yn rhaid i'r byd datblygedig gymryd y camau cyntaf. Nododd yr egwyddorion sydd yn llywodraethu gweithredu rhyngwladol a dywedodd y byddai'r rhan fwyaf o'r camau yn arbed arian ond bod angen anogaethau ar bobl. Fel enghraifft o hynny, nododd y potensial a oedd yn bod i leihau gollyngiadau o adeiladau o hyd at 60 y cant.
7. Yr oedd rhai cyflenwyr masnachol fel Shell a BP yn ystyried ffynonellau adnewyddadwy yn gyfle a dangosodd sut y gallai dros hanner o gyflenwad ynni'r byd ddod o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2060.
8. Terfynodd drwy atgoffa'r Aelodau bod gan bawb ran i'w chwarae mewn lleihau gollyngiadau ac yr oedd llawer o bethau y gallai Cymru ei wneud. Dywedodd mai ei farn bersonol oedd y gallai Cymru anelu at fod yn ollyngydd net sero o garbon deuocsid ac y gellid cyflawni hynny'n rhwydd wrth ddatblygu Morglawdd Hafren. Er ei fod yn cydnabod y materion amgylcheddol a oedd yn gysylltiedig ag ef dywedodd ei fod, ar ôl pwyso a mesur, yn ateb da ac y byddai hefyd yn rhoi hwb i fusnes yng Nghymru.
9. Yn y drafodaeth â'r Aelodau, cytunodd Syr John Houghton fod y defnydd o ffynonellau adnewyddadwy ysbeidiol yn cynnig cyfle ar gyfer cyfleusterau storio a bod gan Gymru dechnoleg brofedig yn y maes hwn y gellid ei hallforio i fannau eraill. Ychwanegodd fod angen buddsoddi pellach mewn technoleg adnewyddadwy yn y DU. Ugain mlynedd yn ôl yr oedd 10 gwaith y lefel o ymchwil a datblygu sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
10. Dywedodd na fyddai llawer o sefydlogi mewn gollyngiadau carbon deuocsid cyn diwedd y ganrif hyd yn oed os cymerid camau ar unwaith. Os na chymerid camau, y farn wyddonol ryngwladol oedd y byddai'r sefyllfa yn ddifridol dros ben ymhen rhai degau o flynyddoedd. Ychwanegodd fod rhai pethau na ellid eu troi'n ôl. Yr oedd y Comisiwn Brenhinol ar Amddiffyn Amgylcheddol wedi argymell gostyngiad o 60 y cant mewn gollyngiadau carbon deuocsid erbyn 2050 a dywedodd Syr John Houghton y gellid cyflawni hynny drwy gyfuniad o well effeithlondeb, rhoi o'r neilltu a'r defnydd o ffynonellau ynni isel eu carbon.
11. Ar fater tanwyddau ffosil glanach nododd y byddai cyfuno gorsaf drydan glo effeithlon a gwres a phwer cyfunedig ac allforio'r dechnoleg honni i leoedd fel Tsieina ac India yn gallu creu cyfleoedd i ddiwydiant Cymru ledled y byd. Gallai hefyd gyfrannu at y nod o wneud Cymru yn gynhyrchydd gollyngiadau net sero.
12. Dywedodd na fyddai fforestu byth yn cyfrannu'n fawr iawn at leihau gollyngiadau ac mai'r farn oedd y byddai angen planhigfa o hanner maint Awstralia i lanhau 10-15 y cant dros gyfnod o 40 mlynedd. Ychwanegodd na ddilyd diystyru dim, er

hynny, fel cyfraniad a thynnodd sylw at werth biomas fel adnodd. Cyfeiriodd hefyd at y technolegau neilltuo a dywedodd eu bod ar hyn o bryd yn Norwy yn pwmpio carbon deuocsid yn ôl i greigiau. Yr oedd y cynnydd mewn cost yn sylweddol, fodd bynnag, yn gymaint efallai â 50 y cant.

13. Gofynnwyd i Syr John Houghton am un mesur y byddai'n rhoi blaenoriaeth iddo ar gyfer Cymru a dywedodd ei fod o'r farn bod Morglawdd Hafren yn gyfraniad effeithiol at y nod gyffredinol o leihau gollyngiadau. Dywedodd y dylid ystyried bod y pryderon amgylcheddol yn llai pwysig na newidiadau eraill a fyddai'n sicr o ddigwydd ymhen amser.
14. Wrth ddod â'r drafodaeth i ben, dywedodd Jake Chapman ei fod yn croesawu optimistiaeth Syr John Houghton a dywedodd, er y gallai technoleg ddatrys y broblem, mai ewyllys oedd yr hyn yr oedd ei angen. Yr oedd o'r farn y byddai'n rhaid sicrhau gostyngiadau erbyn 2050 drwy effeithlondeb, ffynonellau ynni adnewyddadwy a gwell effeithlondeb mewn trafnidiaeth. Yr oedd cost y newidiadau angenrheidiol yn dod i lai nag 1 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, ac yr oedd costau ymaddasu i ymdopi ä newid hinsawdd difrifol yn fwy o lawer na hynny. Yr oedd bellach yn fater o ddarganfod dulliau llawn dychymyg o gael canlyniadau effeithiol gyda phawb yn chwarae ei ran, ni waeth pa mor fach.

**Eitem 3: Amrywiadau Cyllidol**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y Papur gan gyfeirio at y cynnydd a wnaethpwyd wrth ddatblygu amrywiadau cyllidol a chymhorthion gweithredu. Cyfeiriodd at y gwahanol gynlluniau a gyflwynwyd a nododd fod gwaith pellach i'w wneud.
2. Mynegwyd y farn bod y cynnydd a wnaethpwyd yn amlwg i'w groesawu, ond iddo fod yn hir iawn yn dod. Cyfeiriwyd at Adroddiad PricewaterhouseCoopers a'r amrywiaeth o gynlluniau yr oedd wedi argymell eu hystyried. Cyfeiriasai'r Adroddiad at yr angen i gymryd camau ar fyrder. Yr oedd yr Aelodau yn meddwl tybed a oedd cyhoeddiadau pellach yn yr arfaeth ynteu a oedd y dewisiadau eraill wedi eu diystyru.
3. Gwrthododd y Gweinidog y beirniadaethau hyn. Dywedodd mai'r cwbl a wnaeth Adroddiad PricewaterhouseCoopers oedd cynnig rhestr o gynigion y gellid eu gweithredu ond cydnabu fod amryw o anawsterau yn wynebu llawer ohonynt, gan gynnwys gwrthwynebiad gan y Trysorlys a'r Comisiwn Ewropeaidd, a'i bod yn annhebygol y câi'r cwbl ei weithredu. Gobeithiai y byddai'r Pwyllgor yn cydnabod bod rhai bellach ar waith, bod rhai yr oedd yn amlwg nad oeddent yn ddewisiadau realistig, a bod rhai yn ymarferol a'i fod yn bwrw ymlaen â hwy.
4. Nododd yr Aelodau fod y cynnydd wrth gyflwyno Credyd Treth am Ymchwil a Datblygu oddi mewn i'r DU yn dderbyniol iawn hefyd i fusnesau yng Nghymru ac mai'r cam nesaf oedd ceisio amrywiadau rhanbarthol ynddo.
5. Mynegwyd peth siom na cheisid gostyngiadau yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr gan fod y rhain, ochr yn ochr â chyfraddau trethiant is, wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu economi Iwerddon. Awgrymwyd, hyd yn oed os na

ellid darparu'r rhain yn gyffredinol, y gallent fod yn ddewis ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint. Nododd y Gweinidog fod y Grant Cymorth Menter newydd wedi ei ddatblygu gan gadw anghenion busnesau bach yng Nghymru mewn cof yn benodol.

6. Holodd yr Aelodau tybed pam yr oedd angen aros hyd Ebrill 2003 i wella rhaglenni SMART Cymru. Dywedodd y swyddogion na ddylid ystyried hynny'n oedi ond yn gydnabyddiaeth yn unig o'r amser a oedd yn angenrheidiol ar gyfer y broses o gwblhau'r cynllun – gan gymryd i ystyriaeth y newidiadau yn y WDA a'r angen i gael cymeradwyaeth y Comisiwn Ewropeaidd. Pwysleisiasant y byddai'r cynllun presennol, a oedd wedi profi'n llwyddiannus iawn, yn parhau i fod ar gael yn y cyfamser.
7. Holodd yr Aelodau ynghylch y farn oddi mewn i'r Trysorlys ei bod yn rhy gynnar i farnu a oedd methiant yn y farchnad mewn perthynas â datblygu seilwaith TGCh band llydan. Nid oeddent yn derbyn y farn hon a chredent fod y dystiolaeth o anawsterau yn y ddarpariaeth yn eithaf clir.
8. Mynegwyd y farn y gallai newidiadau mewn cyfraith cyflogaeth yng Nghymru, yn ogystal ag amrywiadau cyllidol, ddod â manteision yr un mor werthfawr. Yr oedd llawer o gwmnïau yn dal i gredu bod peryglon mawr mewn cyflogi gweithwyr newydd - a byddai darparu mwy o hyblygrwydd yn hyn o beth yn gallu rhoi hwb sylweddol. Yr oedd angen penodol yng Nghymru i annog busnesau un dyn i gymryd y cam cyntaf o newid i fod yn gyflogwyr.

**Eitem 4: Llythyrau Cylch Gwaith y WDA / Bwrdd Croeso Cymru**

1. Gan fod y cyfarfod wedi mynd dros ei amser, cytunodd y Cadeirydd i dderbyn ceisiadau'r Aelodau y dylid ystyried yr eitem hon yn y cyfarfod nesaf ar 16 Ionawr.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**